

YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL

ATEBION I ARGYFWNG HINSAWDD

YSGRIFENNWYD GAN KIKI REES-STAVROS



Beth pe gallen ni, yn hytrach na chyflwyno mewnfudwyr fel treth ar gymdeithas, eu croesawu fel bodau dynol gwerthfawr sy'n dod â gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr?

Wrth nesu at Dan-y-fron, gellid maddau i chi am feddwl eich bod wedi baglu ar draws pentref mynyddig yng Ngwlad Groeg. Mae fframiau ffenestri glas lliw Santorini'n sbecian o dan winwydden sy'n ymestyn at ail lawr y bwthyn chwarelwr bach. Dan glytwaith o hen ddarnau pren a chwareli gwydr, mae potiau ar hap yn tyfu ffa, ffigys a pherlysiau ffres yn rhaeadru i lawr i'r *apothiki*, ble mae gwerth blynnyddoedd o hen ddarnau a allai fod o ddefnydd rywbryd yn aros eu tro. Does dim byd yn cael ei waredu, a dim yn cael ei wastraffu.

Yn y gegin, try bara'n fisgedi caled, try esgyrn yn stoc, a phlygir tun-ffoil a'i ailddefnyddio. Mae'n amhosib picio i mewn heb adael gyda photiaid o *yuvetsi* neu *moussaka*, ychydig o jam cartref, neu gwlyn o datws priddog.

Symudodd fy nhad, a fydd yn 70 flwyddyn nesaf, i Flaenau Ffestiniog ar ddechrau'r 90au, ar ôl cilio calon fy mam pan oedd hi ar ei gwyliau yn Corfu. Er mai dyna'r stori fer, roedd cysgod, nas llefarwyd i bob pwrpas, dros ymfudiad fy nhad, am na fyddai modd iddo ddychwelyd i Wlad Groeg am dros ugain mlynedd.

Wrth glywed straeon hiraethus am Wlad Groeg wrth i mi gael fy magu, dychmygwn fod Corfu yn rhyw fath o Ardd Eden. Roedd bron bob peth a ddaeth gerbron y bwrdd bwyd teuluol wedi dod o'r ardd, o olew olewydd i win, ac os nad oedd wedi dod o'r fan honno, roedd cyfle go dda mai wedi'i gyfnewid am rywbeth oedd wedi dod oddi yno yr oedd.

Nawr, mewn rhandir yng Ngogledd Cymru, dan gysgod tomenni llechi, mae tyfu'i fwyd ei hun yn helpu fy nhad i barhau i deimlo cyswllt â'i ddiwylliant, a magu cyfeillgarwch. Nawr, mewn rhandir yng Ngogledd Cymru, dan gysgod tomenni llechi, mae tyfu'i fwyd ei hun yn helpu fy nhad i barhau i deimlo cyswllt â'i ddiwylliant, a magu cyfeillgarwch.

Un o'r bobl y mae'n eu hedmygu fwyaf yn y rhandir yw Cindy. Gadawodd Cindy Fietnam pan oedd hi yn ei harddegau, ar ôl cael ei magu mewn pentref amaethyddol gwledig yn Lang Son.

Mae gweithio ar y rhandir yn dod ag atgofion yn ôl iddi o'i phlentyndod, ac mae'n mwynhau'r ymdeimlad o gymuned, y rhannu sgiliau, gwybodaeth, a hyd yn oed blanhigion gyda thyfwyr eraill. Er bod reis, corn a phwmpenni'n tyfu'n hawdd a helaeth yn ei hen bentref, yn y Blaenau rhaid iddo holi'i chymdogion i weld beth fydd yn tyfu orau yn yr hinsawdd yma.

Esbonia fod y ddau blot sydd ganddi yn y rhandir bron yr un faith o waith ag erwau o reis, oherwydd y tywydd gwlyb a'r chwyn a phlaon lluosog. Dyw hyn ddim wedi'i hatal, serch hynny, wrth i'w rhandir orlifo ag aeron, blodau a llysiau amrywiol. Mae'n pwyntio at y gellyg y ddaear (Jerusalem artichokes) y bu i fy nhad eu rhannu gyda hi, ac mae'n dweud sut y dysgodd gymryd toriadau oddi ar ei mwyr duon i'w rhannu ag eraill.

Mae merch Cindy'n hel mafon y tu ôl i ni wrth i ni sgwrsio, ac wrth i'w mam esbonio pwysigrwydd gadael i'w phlant weld sut mae pethau'n tyfu, yn hytrach na gadael iddyn nhw



Fy nhad yn ei randir. Llun: Kiki Rees-Stavros

feddw eu bod yn dod o focs mewn archfarchnad, a'i dymuniad iddyn nhw ddysgu pwysigrwydd amynedd, gwaith caled ac ymrwymiad.

Mae Cindy bron yn adleisio'r hyn ddywed fy nhad wrth sôn am gynaliadwyedd, ac esbonia sut y bu'n rhaid iddyn nhw ochel rhag sbwriel yn eu pentref mynyddig, ble doedd dim biniau. Mae'n dwyn i gof eu bod bron yn llwyr hunangynhaliol, gan brynu ambell hanfod prin, fel halen, a fyddai'n dod mewn gorchudd o bapur newydd, yn hytrach na phlastig.

'Mae gan bob diwylliant ddoethineb gwahanol y gellir ei ddwyn i'r bwrdd, a gall pawb ohonom ddysgu oddi wrth ei gilydd.'

Cindy

Wrth siarad â Cindy a fy nhad, mae dau beth yn fy nharo. Er fy mod wedi clywed am raglenni ledled y DU sy'n defnyddio rhandiroedd i helpu mewnfudwyr i ymdoddi a rhannu sgiliau â phobl leol, mae'n wych gweld hynny'n digwydd yn naturiol yma yn ein tref fach yng Nghymru. Rwyf hefyd o'r farn ei bod hi'n eironig fod cymaint o'r drafodaeth brif-ffrwd yn canolbwyntio ar yr angen i weld mewnfudwyr yn cymhathu, i ddod yn fwy fel 'ni' – pan y dylen ni fod yn gofyn, mewn gwirionedd, beth allwn ni ei ddysgu ganddyn nhw.



Cindy yn ei rhandir. Llyn: Kiki Rees-Stavros

Wrth i mi syllu ar y tomenni llechi, meddyliaf sut y gallai'r Blaenau fod wedi datblygu heb y mewnfudo mawr a fwydodd y chwareli yn y 19eg ganrif. A fyddai'r tomenni hyn yma pe na bai pobl wedi dod o bob cwr i weithio? A fyddai'r chwyldro diwydiannol wedi bod yn bosib heb fewnfudwyr o bob cwr o'r byd?

Beth pe gallen ni, yn hytrach na chyflwyno mewnfudwyr fel treth ar gymdeithas, eu croesawu fel bodau dynol gwerthfawr sy'n dod â gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr yn eu sgil a allai helpu pawb ohonom i drin â'r argyfyngau sy'n prysur nesáu?

Ym Mauritania, gwlad sydd ar flaen y gad yn yr argyfwng hinsawdd, mae hyn eisoes yn

digwydd. Ar ôl i dros 85,000 ffoadur gyrraedd y wlad o Mali ers 2012, mae'r potensial yno i weld mwy o wrthdaro dros adnoddau prin. Ond ceir [adroddiadau fod ffoaduriaid a phobl leol yn rhannu gwybodaeth](#) a sgiliau, yn enwedig o ran cadw dŵr a thechnegau tyfu.

Er bod y rhan fwyaf o drigolion y Blaenau'n meddwl bod fy nhad yn wallgo am gyfnwidd dyfroedd cynnes môr Ionia am fynyddoedd oer Eryri, mae ef wedi teithio i dros 50 o wledydd, ac ni welodd yr un hinsawdd well nag un gogledd Cymru. Er ein bod ni'n ei chael hi'n anodd peidio chwerthin am hyn, mae e'n ei alw'n lopia – mwyn. Dyw'r hafau ddim yn rhy boeth, na'r gaeafau'n rhy oer. Hinsawdd tyfu berffaith.

Dyma fydd grym y Blaenau yn y dyfodol, wrth i lawer o rannau o'r byd ddod yn amhosib i bobl fyw ynddynt oherwydd newid hinsawdd. Mae amcangyfrifon o ran niferoedd ffoaduriaid hinsawdd erbyn 2050 yn cyrraedd hyd at [1.2 biliwn](#), yn ôl Sefydliad Economeg a Heddwch (IEP), a rhai ohonynt yn dod o fannau mor agos ag 20 milltir i ffwrdd hyd yn oed. Er na allwn ni roi ffydd barhaus yn honiad fy nhad nad oes 'dim tywydd eithafol yma', rydyn ni'n bendant mewn lleoliad daearyddol da i fynd i'r afael ag ef.

Un peth y gallwn ni gael ffydd ynddo yw bod tyfu ein bwyd ein hunain, lleihau gwastraff, a defnyddio llai, yn mynd i fod yn hanfodol i'n parhad fel rhywogaeth. I lawer ohonom, bydd hyn yn golygu gwneud newidiadau mawr o ran sut rydyn ni'n byw. I eraill, fel fy nhad a Cindy, nid yw wedi cymryd argyfwng hinsawdd iddyn nhw ddysgu pwysigrwydd byw'n gynaliadwy.

Bydd ein parodrwydd a'n gallu i ddysgu oddi wrth ein gilydd, i rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau, yr un mor hanfodol i'n parhad â dŵr a thir â.

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD can Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.